

1 Ebrill 2023 –  
31 Mawrth 2024



# Adroddiad Blynyddol

2023/24



---

## **Cynnwys**

Rhagair gan Ewan Jones, Cadeirydd	<b>4</b>
Trosolwg gan Carole-Anne Davies, Prif Weithredwr	<b>6</b>
Amdanom Ni	<b>8</b>
Ein hamcanion	<b>8</b>
Ein Gwerthoedd	<b>11</b>
Beth yw ystyr dylunio da a pham mae'n bwysig?	<b>11</b>
Ein Perfformiad 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024	<b>13</b>
Ein Prif Lwyddiannau	<b>17</b>
Mynd i'r afael ag anghenion Cenedlaethau'r Dyfodol	<b>23</b>
Edrych ymlaen at flaenoriaethau strategol ar gyfer 2024-25	<b>26</b>

### **Atodiadau**

1. Y Datganiad Llywodraethu a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr	<b>30</b>
2. Cydraddoldeb, y Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	<b>35</b>
3. Nodyn am adnoddau ariannol a dynol, cymorth ymarferol	<b>36</b>

---

## **Rhagair gan Ewan Jones, Cadeirydd**



Mae'n bleser gen i gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, gan gynnwys rhagolwg ar 2024-25. Fel Cadeirydd newydd, rwy'n hynod ddiolchgar i'm rhagflaenydd Gayna Jones ac i'r Cyfarwyddwyr Fiona Nixon, Ian Carter ac Elinor Gray-Williams, y gwelwyd pob un ohonynt yn gwasanaethu yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys mwy o weithgarwch mewn meysydd allweddol sy'n hyrwyddo dylunio o safon ym maes trafniadaeth, adfywio a chreu lleoedd, a phatrwm effeithiol o weithio hybrid, gan ein galluogi i fynd ar drywydd amcanion strategol craidd a gwell mynediad at ein gwasanaethau.

Rydyn ni'n parhau i werthfawrogi ein perthynas adeiladol â Llywodraeth Cymru sy'n hwyluso ein gwaith wrth i ni ymateb i'r fframwaith y gwnaethant ei osod ar ein cyfer yn ogystal ag amcanion ein cwmni. Mae'r berthynas waith rydyn ni'n ei rhannu â chydweithwyr yn y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac yn y timau trafniadaeth, adfywio, cartrefi a lleoedd yn gynhyrchiol ac yn gydweithredol.

Rydw i hefyd am gydnabod brwdfrydedd ac uchelgais Julie James AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, Llywodraeth Leol a Chynllunio, ei chydweithwyr yn y cabinet a'i swyddogion y buom yn gweithio'n agos ac yn gynhyrchiol gyda nhw dros y blynyddoedd diwethaf.

Fel Cyfarwyddwyr cwmni cyfyngedig, mae'r cyd-destun hwn yn un cefnogol, sy'n ein helpu wrth i ni gyflawni ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau o ran llywodraethu a chyfeiriad strategol. Rydyn ni hefyd yn ffodus o gael tîm cryf o staff a Chomisiynwyr ar y Bwrdd, ac rwy'n ddiolchgar iawn iddynt ac yn gwerthfawrogi eu holl ymrwymiad, eu harbenigedd a'u brwdfrydedd.

Mae ein gwaith parhaus, ein prosiectau mawr a'n cysylltiadau strategol wedi'u nodi yn ein Llythyr Fframwaith a'n Cytundeb Cyllido ar gyfer Tymor y Llywodraeth 2021-2025 sydd ar waith ynghyd â'n llythyr cylch gwaith blynyddol sy'n eu hategu. Mae'r Comisiwn Dylunio yn hyrwyddo dylunio da ar draws yr amgylchedd adeiledig, gan ei ystyried yn ffactor allweddol o ran cyfrannu at fantais economaidd drwy ansawdd amgylcheddol, gan fynd i'r afael â hanfodion yr hinsawdd a byd natur, sicrhau defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a chreu amgylchedd sy'n cynnig ansawdd a dewis i bobl yn eu cymdogaethau ac o ran trafniadaeth, gofal iechyd a llesiant.

Mae ein rôl sylweddol mewn nifer o fentrau strategol genedlaethol yn parhau i gynnwys ein cefnogaeth a'n mewnbwn arbenigol i'r agenda polisi cynllunio sy'n cael ei harwain gan leoedd – sy'n nodi rôl hanfodol dylunio da wrth greu lleoedd cadarn. Rydyn ni'n parhau i weithio tuag at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ochr yn ochr ag ymateb i hanfodion datgarboneiddio a newid hinsawdd.

---

### Mae rhai o uchafbwyntiau 2023-24 yn cynnwys:

- Cyfraniadau sylweddol at y Tasglu Gweinidogol ar Ganol Trefi, dan gadeiryddiaeth Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd, ac at yr Agenda Trawsnewid Trefi a oedd yn denu cyllid refeniw ychwanegol, newydd ar gyfer rhaglen uniongyrchol o gefnogaeth a mewnbwn arbenigol i adfywio a chryfhau'r Egwyddor Canol Trefi yn Gyntaf, gan ganolbwyntio ar Greu Lleodedd.
- Darparu adolygiad strategol arbenigol a chymorth cleientiaid i'r tîm sy'n darparu Prosiect Canolfan Ganser Ryngwladol Felindre, Caerdydd, gwerth £500m.
- Darparu cymorth adolygu dylunio strategol i awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill ledled Cymru, i Gyngor Dinas a Sir Abertawe sy'n gweithio ar ei raglen adfywio uchelgeisiol ar draws y ddinas, ac i amrywiaeth o ymgylgyreion statudol a datblygwyr sy'n ymwneud â phrosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yng Ngogledd Cymru.
- Ymgysylltu â dros 500 o gynrychiolwyr mewn digwyddiadau neu seminarau hyfforddi a gyda 18 o awdurdodau lleol Cymru.
- Darparu mewnbwn arbenigol i awdurdodau lleol sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu lleol.
- Mae ein Prif Weithredwr yn parhau i gadeirio Bwrdd Cyngtori Allanol Ysgol Pensaerniaeth Cymru.

Rydyn ni'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n arwain at fwy o werth cyhoeddus ac at gryfhau ein cydweithrediad a'n dylanwad gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar draws llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol. Mae adfywio ac adnewyddu yn dibynnu ar ragoriaeth mewn dylunio'r amgylchedd adeiledig, a datblygu, yn enwedig ar gyfer cartrefi o safon, lleoedd sydd wedi'u cysylltu'n dda a chymdogaethau mwy gwyrdd a cherddadwy.

Fel Cadeirydd newydd, rwy'n ymwybodol o'r heriau sydd o'n blaenau a'r ffaith y bydd angen i ni lywio'r Comisiwn Dylunio ar lwybr cyson sy'n mynd o nerth i nerth, gan gynnwys datblygu ein hadnoddau. Am y tro, rwy'n falch o weithio gyda Chomisiynwyr, staff a'r tîm o weithwyr proffesiynol rhyngddisgyblaethol ac ymroddedig ym maes dylunio, datblygu ac adeiladu, sy'n rhoi o'u hamser a'u harbenigedd yn wirfoddol i gefnogi ein gwasanaethau ledled y wlad.

Mae'r Comisiwn Dylunio wedi ymrwymo i ansawdd a phwysigrwydd dylunio, a rhaid cyfleu hyn yn glir a'i sbarduno. Mae'r adnoddau polisi a deddfwriaethol wedi cael eu mireinio dros 20 mlynedd o ddatganoli ac maent wedi cael eu defnyddio i fynegi uchelgais sylweddol yn glir. Byddwn yn parhau i arwain yn ein maes, meithrin gallu a diwylliant o ansawdd mewn ymarfer ac ar draws sectorau, sy'n rhoi sylw i ragoriaeth, bob dydd – gan chwarae ein rhan i drosi polisi blaenllaw yn ddarpariaeth o safon.



**Ewan Jones**

Cadeirydd, Comisiwn Dylunio Cymru

---

## **Trosolwg gan Carole-Anne Davies, Prif Weithredwr**



Mae dros 20 mlynedd wedi mynd heibio bellach ers ffurfio'r Comisiwn Dylunio, fel un o fentrau tymor cyntaf Llywodraeth Cymru a oedd newydd gael ei datganoli (Cynulliad Cymru ar y pryd). Mae ein hegri a'n brwdfrydedd dros y dasg o hyrwyddo dylunio da yng Nghymru ar draws pob sector yn barhaus ac rydyn ni'n dal i ganolbwyntio ar ein gweledigaeth ar gyfer Cymru sy'n lle gwell.

Wrth edrych yn ôl a thynnu sylw at lwyddiannau dros y flwyddyn rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, ac ymlaen at 2024-25, mae'n bwysig hefyd ein bod yn nodi, gyda gonestrwydd, y rhwystrau sy'n dal i fodoli o ran cyflawni Cymru sydd wedi'i dylunio'n dda ac sy'n cyfleu manteision hirdymor.

Mae polisi a deddfwriaeth flaenllaw ar waith yng Nghymru – nid oes diffyg uchelgais a gweledigaeth ar gyfer yr hyn y gellid ei gyflawni, ac mae'r dulliau polisi ar waith. Rydyn ni'n falch o fod wedi cyfrannu at y gwaith a helpodd i lunio rhywfaint o'r cyd-destun polisi cenedlaethol hwnnw – ac mae ei bwyslais ar ansawdd dylunio da yn allweddol i greu lleoedd yng nghyd-destun *Cymru'r Dyfodol*, y *Cynllun Datblygu Cenedlaethol* a *Pholisi Cynllunio Cymru*.

Rydyn ni'n parhau i rannu ein sgiliau a'n profiad i helpu i ddylanwadu ar arferion datblygu a phrosiectau o arwyddocâd strategol gan gynnwys ynni, trafnidiaeth a chynllunio datblygiadau yng nghyd-destun argyfyngau'r hinsawdd a byd natur. Mae hyrwyddo gwerth dylunio yn dal yn hanfodol ar gyfer creu amgylcheddau a lleoliadau o safon sy'n denu talent a busnesau ar gyfer economi gystadleuol. Mae'n hollbwysig er mwyn cael gwell prosiectau cysylltedd, symudedd a thrafnidiaeth ledled Cymru, sy'n hanfodol i ddefnyddio gwerth economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

Nod ein gweithdai, adolygiadau dylunio, cymorth i gleientiaid a gwasanaethau hyfforddi yw helpu i ddatblygu sgiliau, hyder a chapasiti ar draws pob disgyblaeth, mewn sefydliadau cenedlaethol, awdurdodau lleol ac ymysg y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ledled Cymru. O ddydd i ddydd, rydyn ni'n ymwneud â gweithgareddau sy'n darparu cymorth, sgiliau ychwanegol a her adeiladol ledled y wlad, gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Gan ein bod yn darparu cyfeillgarwch, arbenigedd a chymorth arbenigol hanfodol i awdurdodau lleol, y sector preifat a'r sector cyhoeddus ehangach sy'n ymwneud â chynllunio strategol, adfywio ac adnewyddu, rydyn ni'n dysgu am y grymoedd sy'n dylanwadu ar integreiddio arferion dylunio da. Gallwn gyfuno'r dysgu hwn a deall tueddiadau a phatrymau sy'n cynnig cyfleoedd neu rwystrau rhag sicrhau amgylcheddau deniadol, o safon sy'n hawdd eu defnyddio.

---

Un o'r rhwystrau mwyaf cyson yng Nghymru yw'r her fawr o ran sgiliau y mae'n rhaid mynd i'r afael â hi er mwyn gwneud cynnydd pendant tuag at y fantais gystadleuol a gynnigir drwy ansawdd amgylcheddol. Mae cynllunio strategol, – sicrhau'r datblygiad cywir yn y lleoliadau cywir – datgarboneiddio a mynd i'r afael ag effaith ein hinsawdd sy'n newid yn gofyn am sgiliau sylweddol ym mhob sector. Mae angen cyflymu gwaith yn y meysydd hyn a buddsoddi yn y sgiliau sydd eu hangen yn ddybryd.

Yn gysylltiedig â'r her sgiliau hon mae dylanwad ymarfer eang o ran comisiynu prosiectau a chaffael timau dylunio – heb friff clir, o fewn amserlenni cyfyngedig a gydag adnoddau annigonol mewn cadwyni cyflenwi ac awdurdodau comisiynu. Mae canolbwyntio ar gostau cyfalaf o fewn amserlenni annigonol yn dwysau ffactorau risg ac yn gwaethygu ansawdd. Ar draws y DU dros y cyfnod hwn, mae'n anochel bod risg yn y diwydiant adeiladu'n cynyddu, yr elw'n lleihau, ansawdd yn gwaethygu a chyflogwyr mawr y diwydiant yn mynd i ddwylo'r derbynnnydd.

Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn tynnu sylw at ddiwylliant ac ymarfer sydd at ei gilydd yn arwain at wallau dylunio ac adeiladu costus y gellir eu hosgoi, ansawdd is a llai o werth cyhoeddus. Mae datrys y materion hyn yn dal yn gyfrifoldeb ar y cyd ac mae'r Comisiwn Dylunio wedi ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid i helpu i ddatblygu sgiliau gwell, arferion gwell a chanlyniadau gwell. Mae rhagoriaeth yn bosibl bob dydd a dylai fod yn ddisgwyliad diodyn.

Ni ellir tanbriso pwysigrwydd capasiti a sgiliau dylunio yn yr hafaliad amser, ansawdd a chost. Rydyn ni'n benderfynol o beidio â cholli golwg ar y cyfle dylunio hwn wrth i ni gydnabod bod yr heriau o ran graddfa, sgiliau a chapasiti yn dal i lesteirio cynnydd ym mhob maes lle mae newid cadarnhaol yn yr amgylchedd adeiledig. Mae dylunwyr da yn datrys problemau ymarferol. Mae timau dylunio rhagorol yn dod ag atebion creadigol a pharhaol i'r lleoedd rydyn ni i gyd yn byw ynddyn nhw.

Mae'r Comisiwn Dylunio yn sefydliad bach iawn ac mae ei gyrhaeddiad eang yn bosibl dim ond oherwydd y gefnogaeth a gawn gan ein rhanddeiliaid, ein Bwrdd, fy nhîm uniongyrchol, a'n rhwydwaith o 40 o ymarferwyr dylunio a datblygu rhagorol. Diolch o galon i bob un ohonynt am eu haelioni wrth rannu eu gwybodaeth a'u sgiliau, ac am eu hymrwymiad a'u brwdfrydedd diwyro. Gyda'n gilydd, byddwn yn gwneud Cymru yn lle gwell.



**Carole-Anne Davies**  
Prif Weithredwr

---

## **Amdanom Ni**

Mae Comisiwn Dylunio Cymru'n hyrwyddo dylunio da er mwyn gwneud Cymru'n lle gwell.

Cwmni preifat yw'r Comisiwn Dylunio, sy'n gyfyngedig drwy warant (DCFW LTD), heb gyfalaf cyfranddaliadau ac wedi'i ymgorffori yn 2002 fel is-gwmni o dan berchnogaeth Iwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru, bellach Gweinidogion Cymru, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae gan y Comisiwn Dylunio ei Fwrdd Cyfarwyddwyr ei hun a benodir drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus Gweinidogol, sy'n cyflawni eu dyletswyddau fel Cyfarwyddwyr y cwmni gyda gofal, diwydrwydd a sgiliau. Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido Comisiwn Dylunio i gyflawni gweithgareddau yn unol ag amcanion y Cwmni fel y nodir yn ei Femorandwm Cymdeithasu ochr yn ochr â gofynion y Fframwaith Blynyddol a'r Llythyr Cylch Gwaith Blynyddol, y cytunir arno fel arfer cyn pob blwyddyn ariannol newydd.

## **Ein hamcanion**

Dyma amcanion ein cwmni fel Comisiwn Dylunio Cymru (DCFW LTD):

- Cefnogi dylunio a phensaernïaeth o safon uchel yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru, drwy hyrwyddo dealltwriaeth well o faterion yn ymwneud â dylunio, a phwysigrwydd gwella'r amgylchedd adeiledig ym mhob sector, gan gynnwys trefnu arddangosfeydd, cyfarfodydd, seminarau a chynadleddau.
- Hyrwyddo arferion dylunio sy'n gydnaws â'r cynllun a wnaethpwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ("y Cynllun Datblygu Cynaliadwy"), gan hyrwyddo arferion gorau ym meysydd effeithlonrwydd ynni, gwaredu gwastraff a chludiant cyhoeddus.
- Hyrwyddo arferion dylunio sy'n gydnaws â'r safonau uchaf mewn perthynas â hyrwyddo cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol.
- Rhoi sylw dyladwy i hyrwyddo rhagoriaeth mewn datblygiadau cyffredin, fel ystadau tai ac unedau diwydiannol, ar yr un pryd â hyrwyddo rhagoriaeth mewn prosiectau mawr eu bri.



---


Mae gan y Comisiwn Dylunio gylch gwaith amlddisgyblaethol ar gyfer holl amgylchedd adeiledig Cymru, ac mae ganddo'r canlynol:

- Tîm arbenigol, amlddisgyblaethol ac aml-sector sy'n cyflawni gwasanaethau arbenigol
- Gwybodaeth, profiad a pherthnasoedd eang iawn
- Y gallu i ddenu a chynnal ymrwymiad gweithwyr proffesiynol medrus
- Capasiti i efelychu a helpu i gynnal rhwydweithiau cydweithredol ledled Cymru.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Comisiwn Dylunio yn hyrwyddo pwysigrwydd dylunio da, gan ddefnyddio tri gwasanaeth penodol ond cysylltiedig sy'n mynd i'r afael â'n hamcanion a'r cylch gwaith a nodwyd ar ein cyfer gan Lywodraeth Cymru.

### **Cymorth a Hyfforddiant i Gleientiaid**

- Rydyn ni'n canolbwyntio ar eitemau strategol hirdymor, creu lleoedd a sicrhau dylunio o safon drwy'r broses gynllunio, a helpu cleientiaid o bob sector i anelu'n uwch a chefnogi eu huchelgais hyd nes eu bod yn ei chyflawni.
- Gallwn helpu cleientiaid i nodi eu gofynion a'u cyfleu'n glir, datblygu'r briff a sicrhau timau dylunio integredig o safon ac ymgynghorwyr dylunio priodol ar gam cywir y prosiect.
- Gallwn helpu awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yn ystod camau cynnar eu gwaith cynllunio strategol a'r prosesau sy'n mynd law yn llaw â phrosesau datblygu lleol a chynllunio strategol.
- Rydyn ni'n rhoi cyngor ac arweiniad priodol ar bob cam o'r gwaith cynllunio datblygu a'r gwaith strategol o greu lleoedd, yn ogystal ag ar gyfer datblygiadau bach cyffredin, cynigion preswyl a chynigion cymdogaeth, uwch gynlluniau a briffiau datblygu; datblygiadau mawr ar raddfa fwy a phrosiectau seilwaith cenedlaethol hirdymor, gan gynnwys prosiectau trafnidiaeth, ffordd, llanw, gwynt a phrosiectau ynni adnewyddadwy eraill.



Active ground floor, © Jen Heal & DCFW



© Jen Heal & DCFW

---

## Gwasanaeth Adolygu Dylunio Cenedlaethol

- Rydyn ni'n annog ymgysylltiad cynnar ar gynigion ledled Cymru, gan ychwanegu gwerth drwy gynnis cyngor dylunio hawdd, hirdymor a strategol, adnoddau arbenigol, cymorth a her adeiladol i gleientiaid, timau dylunio, awdurdodau lleol a datblygwyr ledled Cymru.
- Rydyn ni'n rhoi ein sylwadau arbenigol annibynnol ar y cofnod cyhoeddus.

## Digwyddiadau, Cyhoeddiadau a Rhwydweithiau

- Rydyn ni'n defnyddio ein holl lwyfannau i gyhoeddi a rhannu'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu, ein harbenigedd a'n profiad o arferion datblygu byw gan gyfrannu at ddadleuon gyda'r nod o ddylanwadu er mwyn cael newid cadarnhaol.
- Mae ein profiad yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i helpu i lywio cyfleoedd ar gyfer datblygiadau sydd wedi'u dylunio'n dda, wedi'u lleoli'n dda ac sy'n amserol, ac i hyrwyddo gwerth dylunio da er mwyn creu lleoedd cynaliadwy.
- Rydyn ni'n helpu i archwilio materion perthnasol, codi ymwybyddiaeth, ysgogi cydweithio a thrafodaeth ehangach ac yn cyfleu manteision dylunio da drwy gyfres o ddigwyddiadau a chyhoeddiadau sy'n canolbwyntio ar bynciau allweddol ar gyfer y diwydiannau dylunio a datblygu.

Nodir gofynion penodol ein Fframwaith a'n Llythyr Cylch Gwaith Blynyddol yn fanylach yn y cynllun hwn ochr yn ochr a'n hadroddiad perfformiad ar gyfer y cyfnod perthnasol.



© Jen Heal & DCFW



© Jen Heal & DCFW

---

## **Ein Gwerthoedd**

Rydyn ni'n gweld gwerth mewn bod yn agored, yn dryloyw a pharchu ein gilydd mewn diwylliant lle rhennir gwybodaeth â'n holl randdeiliaid. Mae'r gwerthoedd hyn yn dangos pa fath o sefydliad yr hoffem fod.

Rydyn ni'n meithrin diwylliant cadarnhaol, proffesiynol a chreadigol, ac yn gweithio'n barhaus i wella effeithlonrwydd ac ansawdd ein gwasanaethau.

Rydyn ni'n sefydliad arbenigol sy'n gwerthfawrogi pob aelod o'r tîm ac yn meithrin eu creadigrwydd, eu cymhwysedd a'u hyder. Mae datblygiad proffesiynol a phersonol a gwella'r gallu i arwain yn cyfoethogi ein tîm, yn gwella ein perfformiad ac yn sicrhau ansawdd y gwaith a wnawn a'r gwasanaethau a ddarparwn.

## **Beth yw ystyr dylunio da a pham mae'n bwysig?**

Yr amgylchedd adeiledig sy'n cynnal pob cysylltiad rhwng pobl. P'un a ydyn ni'n dal trê, yn mynd i'r ysgol neu'r brifysgol, angen defnyddio gwasanaethau gofal iechyd, yn byw mewn cartrefi cyfforddus neu'n mwynhau mannau gwyrdd, dŵr yfed diogel ac aer glân – rydyn ni'n dibynnu ar ein hamgylchedd adeiledig a gafodd ei adeiladu, ei greu a'i siapio, i gefnogi ein ffordd o fyw. Dylunwyr o ryw fath neu'i gilydd yw cyfran fawr o'r bobl sy'n siapio'r amgylchedd hwnnw. Mae dylunio wedi siapio ein hamgylchedd cyfan mewn un ffordd neu'r llall.

Mae dylunio da yn hanfodol i greu lleoedd da, datblygu cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a rhoi gwerth cyhoeddus hirdymor. Mae'n manteisio i'r eithaf ar ddefnydd effeithlon o dir ac adnoddau eraill, yn cyfrannu at weithlu medrus ac yn cyflawni ansawdd amgylcheddol gwell er mwyn sicrhau ansawdd bywyd a llesiant gwell i bobl Cymru. Mae amgylchedd adeiledig sydd wedi'i ddylunio a'i gysylltu'n dda yn rhoi dewisiadau teithio a thrafnidiaeth i bobl, yn cynnig mynediad rhwydd at gyfleoedd gofal iechyd, addysg a gwaith, mae'n gynhwysol ac yn hawdd i bawb ei ddefnyddio, mae'n llawn lleoedd dymunol a phleserus i fyw ynddynt.

---

### **Mae dylunio da yn bwysig oherwydd y canlynol:**

- Mae dylunwyr da yn datrys problemau ymarferol
- Mae dyluniad da yn symleiddio cymhlethdodau
- Mae lleoedd sydd wedi'u dylunio'n dda yn denu talent a busnes
- Mae lleoedd sydd wedi'u dylunio'n dda yn hawdd i bawb eu defnyddio – maen nhw'n hygyrch ac yn gynhwysol
- Mae dylunio da yn defnyddio adnoddau naturiol ac ynni'n effeithlon
- Mae dylunio da yn lleihau risgiau, oedi a chostau oherwydd gwall neu newid heb ei gynllunio
- Mae dylunio da yn ychwanegu gwerth ac yn helpu i sicrhau lles y cyhoedd yn yr hirdymor.

Mae arferion a phrosesau'r amgylchedd adeiledig yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, boed hynny o ran gwastraff carbon, adeiladu a dymchwel, deunyddiau ac echdynnu mwynau. Mae ein hamgylchedd adeiledig wedi'i greu o adnoddau cyfyngedig gan brosesau sy'n gallu newid amodau'r amgylchedd yn sylweddol - gan gynnwys llwybrau afonydd, sefydlogrwydd tiffurfiau ac ansawdd yr aer rydyn ni'n ei anadlu.

Mae astudiaethau yn y DU ac yn rhyngwladol wedi dangos bod colledion ariannol sylweddol yn deillio o wallau adeiladu y gellir eu hosgoi, ac mae tua 70% o'r rhain yn digwydd yn ystod y camau dylunio. Mae ffactorau allweddol yn eu plith – diffyg amser ar gyfer dylunio a diwylliant gwael mewn perthynas ag ansawdd.<sup>1</sup>

Dangoswyd bod economi dylunio'r DU yn iach yn adroddiad *Design Economy: People, Places and Economic Value*<sup>2</sup> yn 2022, a ddangosodd werth dylunio i Gymru ac i'r DU. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod twf yn y maes hwn ddwywaith cyfartaledd y DU, gan gyfrannu £97.4bn mewn Gwerth Ychwanegol Gros at economi'r DU, gyda chynnydd o 18% yng Ngwerth Ychwanegol Gros Cymru, a gododd i £2 biliwn. Mae'r data hefyd yn datgelu diwydiant sylweddol a medrus, sy'n cyflogi 1.97 miliwn o bobl – un o bob ugain o weithwyr - yn y DU yn 2020, gan gynnwys pensaernïaeth, dylunio cynnyrch, ffasiwn, dylunio digidol, crefft a graffeg ynghyd â'r rheini sy'n gweithio mewn swyddi dylunio gwasanaethau mewn sectorau eraill, fel y GIG a gwasanaethau ariannol. Yn 2019, roedd y sector dylunio yn gyfrifol am fwy na £70bn o allforion, gan gynnwys gwaith a gomisiynwyd ar gyfer prosiectau tramor o'r DU.

O ystyried effaith arferion yr amgylchedd adeiledig, ei le yn yr economi a heriau newid hinsawdd a chyflawni targedau sero net – mae hyrwyddo, cydnabod a sicrhau gwerth dylunio o safon yn hanfodol drwyddi draw. Mae dylunwyr yn dod â gwerth aruthrol mewn sawl ffordd - siapio gwasanaethau a manau cyhoeddus, creu cartrefi a chymdogaethau o safon, ac mae ganddynt rôl hollbwysig mewn sawl disgyblaeth, gan sicrhau bod ein hamgylchedd adeiledig a'n seilwaith trafndiaeth yn gallu sicrhau ansawdd a gwerth hirdymor ochr yn ochr â manteision ehangach i'r cyhoedd.

---

1 <https://getitright.uk.com/reports/strategy-for-change>

2 [https://www.designcouncil.org.uk/fileadmin/uploads/dc/Documents/Design\\_Economy\\_2022\\_Full\\_Report.pdf](https://www.designcouncil.org.uk/fileadmin/uploads/dc/Documents/Design_Economy_2022_Full_Report.pdf)

---

## **Ein Perfformiad**

### **1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024**

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn Llywodraeth Cymru, yn adrodd iddynt bob chwarter drwy ein Partneriaid Nawdd yn y Gyfarwyddiaeth Gynllunio; rhwng ein cyfarfodydd Bwrdd Cyfarwyddwyr chwarterol a'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac yn ein hadroddiadau ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae ein llythyr cylch gwaith blynyddol ar gyfer pob blwyddyn yn nodi'r prif weithgareddau a gofynion rhaglen ynghyd â'n targedau ar gyfer y cyfnod.

Mae ein fframwaith a'r llythyr cylch gwaith ar gyfer 1 Ebrill 2023-31 Mawrth 2024 yn adlewyrchu targedau meysydd gwasanaeth a'n rôl ehangach o fewn Trawsnewid Trefi, gan ganolbwyntio'n benodol ar greu lleoedd yng nghyd-destun adfywio ledled Cymru, gan gefnogi swyddogion tai, adfywio ac economi Llywodraeth Cymru ynghyd ag awdurdodau lleol.

Mae'r fframwaith hefyd yn adlewyrchu ein gwaith ar ynni adnewyddadwy, ein mewnbwn a'n cyngor dylunio trafnidiaeth i Trafnidiaeth Cymru, a'n rôl newydd o ran darparu gwaith ysgrifenyddiaeth a gweithredu annibynnol ac arbenigol i'r Bwrdd Teithio Llesol yng Nghymru, am gyfnod prawf o flwyddyn yn amodol ar adolygiad. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac roedd yn ychwanegol at ein gwasanaethau craidd ar gyfer awdurdodau lleol, cleientiaid/unigolion/datblygwyr comisiynu a'r trydydd sector.

#### **Cyllideb**

	<b>2023/24</b>
<b>Refeniw</b>	£510,000 (gan gynnwys £150,000 Trawsnewid Trefi)
<b>Gwerth cymorth ymarferol i 40 o weithwyr proffesiynol gwirfoddol</b>	£81,949.50

---

### Wrth ystyried yr adroddiad perfformiad a gweithgarwch hwn, dylid nodi'r canlynol:


- Caiff ein gwasanaethau eu hyrwyddo a'u darparu ledled Cymru, gyda safbwynt arbenigol annibynnol.
- Nid ydym yn sefydliad aelodaeth nac yn gorff proffesiynol.
- Nid ydym yn cynrychioli buddiannau unrhyw broffesiwn unigol. Rydyn ni'n cydnabod ac yn adlewyrchu natur amlddisgyblaethol yr amgylchedd adeiledig ac ystod y gweithgarwch dylunio, cynllunio a chreu lleoedd.
- Rydyn ni'n canolbwyntio ar y gwerth cyhoeddus hirdymor y gellir ei gyflawni drwy ddatrys problemau mewn ffordd greadigol, rhywbeth sydd wrth wraidd arferion dylunio a datblygu ardderchog, gan ategu'r gwaith cadarn o gynllunio'n strategol a chreu lleoedd.

### Roedd ein targedau ar gyfer 2023/24 yn aros yn gyson:

- 22 o Ddiwrnodau Adolygu Dylunio gan gynnwys o leiaf 4 diwrnod ar-lein a/neu wyneb yn wyneb ar gyfer pob rhan o Gymru yn ôl y galw.
- 8 Sesiwn Datblygiad Proffesiynol wedi'u cynllunio a'u cyflawni.
- 350 o Weithwyr Proffesiynol ym maes Amgylchedd Adeiledig/Aelodau Awdurdodau Lleol yn mynychu digwyddiadau hyfforddiant/seminarau.

Ategwyd y targedau hyn gan ofynion ein fframwaith a'n llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru, a lywiwyd gan *Raglen Lywodraethu 2016-2021 Symud Cymru Ymlaen*, gyda chefnogaeth amcanion Llesiant a'r strategaeth genedlaethol, *Ffyniant i Bawb*.

Mae'r cylch gwaith yn nodi disgwyliad Llywodraeth Cymru y byddwn yn parhau i hyrwyddo rôl dylunio yn yr amgylchedd adeiledig ar yr un pryd â chyfrannu at gyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y strategaethau hyn ac unrhyw ddogfennau strategaeth sydd ar y gweill gan y Llywodraeth a allai ddisodli'r rhain ar gyfer cyfnod y Senedd 2021-2026.



---

## Gwasanaeth Adolygu Dylunio 1 Ebrill 2023-31 Mawrth 2024

Cynhaliwyd **21** o Ddiwrnodau

Defnyddiodd **14** o Awdurdodau Cynllunio Lleol y gwasanaeth gan gynnwys Sir Ddinbych, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Bro Morgannwg, Caerffili, Caerdydd, Abertawe, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Benfro, Wrecsam a Chasnewydd.


---

**21 Design  
Review days  
delivered**



---

**14 of 22 Local  
Planning Authorities  
used the Design  
Review service**



## Digwyddiadau a Seminarau Hyfforddi 1 Ebrill 2023-31 Mawrth 2024

Cyflwynwyd seminarau, hyfforddiant a gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb, yn dibynnu ar anghenion y defnyddwyr. Dim ond pan mai Comisiwn Dylunio Cymru yw'r prif bartner trefnu yr ydym yn cofnodi data am nifer y cynrychiolwyr yn erbyn targedau.

Cyflwynodd neu cyfrannodd Comisiwn Dylunio Cymru at gyfanswm o **17** o ddigwyddiadau a seminarau hyfforddi.

Roedd **13** o Ddigwyddiadau'n brif ddigwyddiadau Comisiwn Dylunio Cymru, gan ddenu **536** o gynrychiolwyr.

Roedd **4** yn ddigwyddiadau partner a ddenodd **135** o gynrychiolwyr.

---

**17 Training events  
& seminars delivered,  
attracting a total  
of 671 delegates**



---

## Diwrnodau Creu Lleoedd/Trawsnewid Trefi - cymorth i awdurdodau lleol

Dechreuodd y diwrnodau creu lleoedd ym mis Ionawr 2023 ac roeddent wedi'u trefnu drwy gydol y flwyddyn galendr. Roedd sesiynau ar gael i awdurdodau lleol drafod a chael cymorth i ddatblygu eu cynlluniau creu lleoedd.

Cynhaliwyd cyfanswm o **12** o sesiynau a mynychodd **12 o'r 22** awdurdod lleol sesiynau yn ystod y cyfnod hwn. Roedd pob sesiwn yn cynnwys trafod nifer o drefi yn ardal yr awdurdod lleol.

Yn gyffredinol, ar draws ein gwasanaethau, fe wnaethom ymgysylltu â **18 o'r 22** awdurdod lleol yng Nghymru ac un Awdurdod Parc Cenedlaethol. Y rhain oedd Ynys Môn, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir y Fflint, Gwynedd, Merthyr Tudful, Powys, Abertawe, Bro Morgannwg, Sir Ddinbych, Casnewydd, Sir Fynwy, Caerdydd, Wrecsam, Castell-nedd Port Talbot a Bannau Brycheiniog.

---

## 12 Placemaking sessions held



---

**12 of 22 Local Planning Authorities used the service**



---

**Engaged with 18 of 22 Local Planning Authorities across our services**





## Ein Prif Lwyddiannau

### Drwy gydol 2023/24, parhaodd Comisiwn Dylunio Cymru i wneud y canlynol:

- Cyfrannu at gyflawni Rhaglen Llywodraeth Cymru drwy hyrwyddo dylunio da yn ein hamgylchedd adeiledig, gan helpu i greu lleoedd gwell y mae pobl eisiau byw a gweithio ynddynt, ym mhob rhan o'n gwaith.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni datblygu cynaliadwy, creu cymunedau cynaliadwy a mynd i'r afael â newid hinsawdd yn unol â'n hamcanion ac yn gyson â'n diben a'n hymateb i'r cylch gwaith a nodwyd.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisiau Llywodraeth Cymru gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Nodiadau Cyngor Technegol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, i'r graddau y maent yn ymwneud â chreu lleoedd, dylunio a phensaerniaeth.

Cafodd y broses penodiadau cyhoeddus ei chwblhau ym mis Ebrill 2024 pan ddewiswyd Cadeirydd newydd i Gomisiwn Dylunio Cymru. Mae Ewan Jones yn ymgymryd â'r rôl ar 1 Mehefin 2024 a bydd y Cadeirydd, Gayna Jones, yn gorffen ei thymor ar 30 Ebrill 2024. Diolchwn i Gayna am ei hamser a'i hymrwymiad fel Cadeirydd, ei chyngor strategol a'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i greu lleoedd yng Nghymru ac edrychwn ymlaen at weithio gydag Ewan.

Yn ystod 2023-24 fe wnaethom barhau i hyrwyddo'r safonau datblygu uchaf gan gefnogi a hyrwyddo dylunio cynhwysol, datblygu cynaliadwy a gwrthsefyll yr hinsawdd, yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Ddeddf Cydraddoldeb. Roedd ein gwaith yn cynnwys:

- Parhau i ddarparu gweithdai dylunio a chreu lleoedd ar gyfer Trafnidiaeth Cymru ochr yn ochr â chymorth i gynyddu a gwella'r capasiti dylunio yn y sefydliad.
- Gwreiddio'r gwaith o greu lleoedd ar draws y sector datblygu yng Nghymru drwy roi Siarter Creu Lleoedd Cymru ar waith. Rydyn ni'n falch o weithio mewn partneriaeth mor agos â'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio a chwarae rôl hwyluso wrth lywio'r gwaith hwn. Mae 150 o sefydliadau ledled Cymru bellach wedi llofnodi'r Siarter.

Rydyn ni wedi ymrwymo i'r un graddau i sicrhau bod ein gwasanaethau'n llwyddo i 'creu lleoedd yn strategol' lle caiff dylanwad dros leoliad a dewis safle ei ystyried ar yr adeg fwyaf priodol i fanteisio i'r eithaf ar opsiynau dylunio a thrafnidiaeth gynaliadwy, fel yr adlewyrchir yn ein gwaith gydag Awdurdodau Lleol wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol.

## Creu Lleoedd yng Nghanol Trefi

Mae cymryd rhan yn y rhaglen Trawsnewid Trefi wedi arwain at Gomisiwn Dylunio Cymru yn ymgysylltu â phob awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynnwys adrannau gwahanol i'r rheini rydyn ni'n eu gweld yn rheolaidd drwy adolygiadau dylunio, hyfforddiant a digwyddiadau. Mae wedi helpu i ddod â gwahanol adrannau awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru at ei gilydd ac wedi cyfuno nifer o'r elfennau rydyn ni'n gweithio arnyn nhw, gan gynnwys gwaith gyda Trafnidiaeth Cymru, cymorth i baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a hyrwyddo Siarter Creu Lleoedd Cymru.

Wrth i'r awdurdodau lleol fwrw ymlaen â'u cynlluniau, bydd prosiectau'n dod i'r amlwg a all gyfrannu at y gwasanaeth adolygu dylunio. Yn y cyfamser, rydyn ni'n parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ac rydyn ni'n paratou i adeiladu ar ein cam cyntaf o waith, sef cefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt baratoi eu Cynlluniau Creu Lleoedd yng nghanol trefi yn unol â gofynion rhaglen gyllido Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

Yn y maes gweithgarwch hwn, rydyn ni nawr yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. Cynnal digwyddiad/cynhadledd adfywio yn ystod hydref 2024.
2. Cydlynu ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu ymhellach.
3. Gwella'r fframwaith a'r broses gaffael i ehangu'r ystod o sgiliau ac arbenigedd sy'n cyfrannu at Gynlluniau Creu Lleoedd yn ogystal ag arweiniad ar ysgrifennu briffiau ar gyfer prosiectau penodol.
4. Adolygiad parhaus o gynlluniau creu lleoedd sydd ar y gweill a phrosiectau allweddol sy'n deillio o'r rhain.
5. Hybu perchnogaeth gorfforaethol y cynlluniau mewn awdurdodau lleol gyda chefnogaeth cyd-drefniant Llywodraeth Cymru.
6. Darparu digwyddiadau dysgu ar sail pynciau, astudiaethau achos a chynnwys digidol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gyllideb ychwanegol o £70,000 i gefnogi'r gwaith hwn.



## Bwrdd Teithio Llesol

Ar gais Llywodraeth Cymru, darparodd Comisiwn Dylunio Cymru ysgrifenyddiaeth arbenigol annibynnol i Fwrdd Teithio Llesol Cymru hyd at 31 Mawrth 2024, gan helpu'r Bwrdd i ddangos ei annibyniaeth. Roedd y Comisiwn Dylunio wedi cyflawni'r swyddogaeth ysgrifenyddol ar gyfer 14 o gyfarfodydd (gan gynnwys chwe chyfarfod paratoadol), gan ddarparu gofod ar gyfer cyfarfodydd a gwasanaethu, casglu papurau a chofnodion cyfarfodydd, a pharatoi gyda'r Cadeirydd.

Cyfarfod paratoi'r Bwrdd	Cyfarfod y Bwrdd
<b>2023</b>	
4 Mai	26 Mai
29 Mehefin	27 Gorffennaf
24 Awst	21 Medi
23 Hydref	17 Tachwedd
<b>2024</b>	
11 Ionawr	8 Chwefror
22 Chwefror	21 Mawrth

Cynhaliwyd cyfarfodydd is-grŵp Teithio Llesol i'r Ysgol hefyd ar 11 Medi ac 8 Tachwedd 2023.



---

## Symposiwm Rhyngwladol yn nodi 25 Mlynedd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC)

Arweiniodd y Comisiwn Dylunio ar y cysyniad o bwnc a oedd yn canolbwyntio ar greu lleoedd, trefnu a chyflwyno symposiwm rhyngwladol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ar 8 Medi 2023. Mae'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol, ymarferol ar sail Dwyrain-Gorllewin sy'n gweithredu drwy wyth Aelod-weinyddiaeth – Llywodraeth y DU, Llywodraeth Iwerddon, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Ynys Manaw, Llywodraeth Jersey a Llywodraeth Guernsey. Mae'r Cyngor yn cyfarfod ar lefel Gweinidogion dair i bedair gwaith y flwyddyn. Mae cyfres o grwpiau Sector Gwaith, sy'n cynnwys aelodau o bob rhan o'r ynysoedd, yn cydweithredu'n barhaus ar amrywiaeth o feysydd penodol y cytunwyd arnynt ar gyfer cydweithredu a rhannu gwybodaeth. Roedd y symposiwm yng Nghaerdydd yn nodi 25 mlynedd ers Cytundeb Dydd Gwener y Grogllith/Belfast dan Eلفen 3, y ffurfiwyd y Cyngor oddi tani.

Buddsoddwyd amser ac adnoddau sylweddol Comisiwn Dylunio Cymru yn y prosiect rhwng mis Chwefror a mis Medi 2023. Datblygodd ein tîm gysyniad y rhaglen a chydweithiodd â Ciara Gilvarry a Lisa Penny, cydweithwyr o BIC i sefydlu siaradwyr, lleoliad a logisteg. Fe wnaethom arwain y digwyddiad ar ran Llywodraeth Cymru fel y wlad sy'n cynnal y digwyddiad. Cafodd y digwyddiad ei gadeirio gan ein Prif Weithredwr, Carole-Anne Davies, a dechreuodd gydag anerchiad gan y Prif Weinidog Mark Drakeford ac 80 o gynrychiolwyr a oedd yn bresennol.

## Trafnidiaeth Cymru

Gyda Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd ar waith, rydyn ni wedi parhau i gefnogi Trafnidiaeth Cymru ar amrywiaeth o brosiectau i helpu i hyrwyddo a gwreiddio dull cyson o sicrhau ansawdd dylunio.

Fe wnaethom adolygu a herio'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer pum gorsaf newydd ar Brif Reilffordd De Cymru ym mis Tachwedd 2023. Mae'r gorsafoedd yn ddarnau hanfodol o bos jig-so trafndiaeth Cymru a rhaid iddynt fod o ansawdd uwch. Fe wnaethom hefyd gynnal ymweliadau safle yng Ngogledd Cymru ym mis Chwefror 2024 ar gyfer Porth Wrecsam, Hwb Trafnidiaeth y Dyfodol Llanberis a Chyfnawidfa Caergybi.

Symposiwm Rhyngwladol yn nodi 25 Mlynedd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC)



## Hunt Medi Group

Fe wnaethom gefnogi grŵp gorchwyl, a oedd yn gyfrifol am ddatblygu 'arweiniad ar gyflawni datblygiadau'n seiliedig ar leoedd, wedi'u galluogi gan atebion trafndiaeth sy'n cefnogi twf economi ffyniannus, werdd a chyfartal ac sy'n cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol a Strategaeth Drafndiaeth Cymru'. Fe wnaethom annog profi dulliau ac atebion newydd drwy weithdai a oedd yn edrych ar safleoedd sy'n arddangos yr heriau sy'n cael eu harchwilio.

## Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru

Fe wnaethom gwblhau a chyhoeddi'r canllawiau cynllunio newydd sy'n cefnogi polisiau allweddol a nodir yn *Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol*. Cafodd y canllaw newydd *Dylunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru* ei gwblhau ym mis Tachwedd 2023 ac mae'n disodli ein canllaw arferion da cynharach yn 2014. Pwrpas y ddogfen hon yw nodi'r prif amcanion ac ystyriaethau dylunio ar gyfer datblygu gosodiadau gwynt a solar mawr ar y tir mewn modd sensitif yn ogystal â datblygiadau ategol yng Nghymru.

## Bwrdd Cyngori Allanol Ysgol Pensaernïaeth Cymru

Mae ein Prif Weithredwr, Carole-Anne Davies, yn parhau i gadeirio Bwrdd Cyngori Allanol Ysgol Pensaernïaeth Cymru ar eu gwahoddiad. Mae'r ysgol yn y trydydd safle ar y rhestr o brifysgolion gorau yn y DU sydd ag enw da yn rhyngwladol am ragoriaeth addysgu. Mae'r Bwrdd Cyngori yn darparu her adeiladol a fforwm datblygiadol ar gyfer y dull ysgol gyfan ac yn gwneud cysylltiadau allweddol â diwydiant ac ymarferwyr.


## Cwrs MA mewn Dylunio, Prifysgol Caerdydd

Rydyn ni wedi ymgysylltu o'r newydd â'r cwrs MA Dylunio Trefol ym Mhrifysgol Caerdydd – gan gysylltu â staff cyfarwydd a staff newydd a darparu sesiynau difyr i'w myfyrwyr. Yn ogystal, mae Max Hampton yn cyfrannu at eu gwaith tai dan arweiniad y gymuned, ac mae Jen Heal yn gyfrannwr gwadd rheolaidd yn Stiwdio'r Gwanwyn a manau eraill yn ystod y flwyddyn academiaidd.

## Tai Caerdydd

Rydyn ni wedi cynnig pecyn o gefnogaeth a hyfforddiant i Dai Caerdydd i gefnogi eu rhaglen ddatblygu uchelgeisiol barhaus. Mae'r pecyn yn cynnwys sesiynau hyfforddi ar bynciau penodol, ymweliadau safle ac adolygiadau o ddatblygiadau hyd yma i lywio dysgu.

Dylunio ar gyfer  
Ynni Adnewyddadwy  
yng Nghymru



---

## Urban Retrofit UK

Rydyn ni'n rhoi mewnbyn ar *ehangu addasiadau sy'n seiliedig ar leoedd i'r amgylchedd adeiledig drwy'r system gynllunio a datblygu*. Mae'r ymchwil yn archwilio'r rhwystrau rhag cyflawni ac yn herio rhesymeg gydnabyddedig system gynllunio a datblygu'r DU sy'n canolbwyntio ar dwf. Mae'n ceisio datblygu model cysniadol newydd o'r system gynllunio a datblygu sy'n nodi lle mae'r pwyntiau ymyrryd hanfodol ar gyfer awdurdodau cynllunio, datblygwyr a chymunedau i weithio gyda'i gilydd a diwygio arferion sydd wedi hen ennill eu plwyf a chynyddu ôl-osod trefol. Cafodd y cynnig amlinellol cychwynnol ei raddio fel yr un gorau a chafodd 10/10 gan yr holl adolygwyr. Rydyn ni bellach yn cyfrannu at ddatblygu'r briff ar gyfer cam nesaf cystadleuaeth grant seiliedig ar leoedd ESRC.

## Platform Mapio Cyhoeddus

Mae Jen Heal yn aelod o Grŵp Cyngori Cymru ar gyfer y prosiect mawr gwerth miliynau o bunnoedd, *Platform Mapio Cyhoeddus*. Arweinir y prosiect gan yr Athro Flora Samuel (Prifysgol Caergrawnt) gyda chydweithwyr ym Mhrifysgol Wrecsam (Yr Athro Alec Shepley), Prifysgol Caerdydd (Yr Athro Scott Orford a'r Athro Zhiwen Luo), y sector cyhoeddus (Cyngor Ynys Môn), y sector gwirfoddol (Medrwn Môn), ac mewn diwydiant (Dotiau, Sefydliad Quality of Life, Play Disrupt a Free Ice Cream). Mae'r *Platform Mapio Cyhoeddus* yn un o bedwar prosiect ymchwil arloesol ar raddfa fawr wedi'u harwain gan ddylunio sydd wedi'u hariannu drwy raglen yr Amgueddfa Ddylunio *dylunio'r trawsnewid gwyrdd Arsyllfa'r Dyfodol* mewn partneriaeth â Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau sy'n dwyn ynghyd brosiectau amlddisgyblaethol i fynd i'r afael â materion amgylcheddol a chyflymu a sicrhau economi wyrddach yn y dyfodol. Mae'r prosiect wedi cael cymorth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Teithio Llesol a System Gynllunio Cymru

Rhoddodd Max Hampton fewnbyn arbenigol ar Deithio Llesol yn System Gynllunio Cymru. Mae'r gweithgor wedi cael ei gynnull gan Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol, sy'n ceisio nodi sut gellir gwreiddio uchelgeisiau teithio llesol ym Mholisi Cynllunio Cymru. Bydd argymhellion yn cael eu rhoi i Weinidogion. Mae'r gwaith hwn yn gwbl ar wahân i swyddogaeth ysgrifenyddol Comisiwn Dylunio Cymru i'r Bwrdd Teithio Llesol.

## Y Ganolfan Cynhyrchu a Chyflenwi Ynni Adnewyddadwy Integredig

Mae Carole-Anne Davies yn arwain ar ran Comisiwn Dylunio Cymru fel partner mewn cais ar gyfer Canolfan Cynhyrchu a Chyflenwi Ynni Adnewyddadwy Integredig (CIREGS) ym Mhrifysgol Caerdydd. Caiff y prosiect ei arwain gan Carlos Ugalde, Athro Systemau Pŵer Trydanol a Dirprwy Gyfarwyddwr CIREGS. Mae CIREGS hefyd yn gysylltiedig â gwaith Comisiwn Dylunio Cymru gydag Ysgol Pensaerniaeth Cymru. Ochr yn ochr â Choleg Prifysgol Llundain (arweiniol) a Phrifysgol Caerwysg, mae Caerdydd yn paratoi cynnig gwerth £5m yn yr alwad gan 'Ganolfannau Cyflymu'r Economi Werdd' Cyngor Ymchwil Peirianeg a Gwyddorau Ffisegol UKRI.

---

## Mynd i'r afael ag anghenion Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Comisiwn Dylunio Cymru Cyf. yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan ddibenion ac sydd wedi ymrwymo i egwyddorion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Rydyn ni'n ymarfer y pum ffordd o weithio ac yn ymateb i'w saith nod ac yn ystyried bod cyflawni manteision dylunio da yn hanfodol ar gyfer gwrthsefyll yr hinsawdd, llesiant ac effeithlonrwydd adnoddau yn yr hirdymor.

Mae cyflwyno Cymru Can yn nodi strategaeth newydd a gweledigaeth hirdymor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer 2023-2030. Rydyn ni'n rhannu uchelgais y Comisiynydd i wella bywydau pobl Cymru nawr ac yn y dyfodol, a dyna pam ein bod ni'n gweithredu'n wirfoddol yn ysbryd y Ddeddf ac yn cefnogi'r Ddeddf, ei themâu allweddol, ei nodau a'i phum ffordd o weithio.

- Rydyn ni'n mabwysiadu dull integredig, strategol a systemig o ddylunio er mwyn datblygu ac adnewyddu newid cadarnhaol yn yr amgylchedd adeiledig.
- Rydyn ni'n cydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid, gan roi ein sgiliau a'n harbenigedd ar waith ar ran eraill i'w helpu i ganfod ac atal problemau rhag digwydd neu waethgu.
- Rydyn ni'n gallu chwarae rôl brocera annibynnol sy'n cynnwys eraill ac yn eu helpu i gydweithio'n fwy effeithiol neu'n haws.
- Rydyn ni'n deall manteision dylunio da ac yn hyrwyddo'i werth hirdymor er budd y cyhoedd.

Fel mater o drefn, mae'r Comisiwn Dylunio'n hyrwyddo dylunio cynaliadwy da; cymdogaethau sydd wedi'u cysylltu'n dda a'u dylunio'n dda, sy'n gynhwysol, yn ddeniadol ac yn ddiogel sy'n helpu i gefnogi cymunedau cydlynol a lleoedd cynaliadwy. Mae amgylcheddau sydd wedi'u dylunio'n dda, systemau trafniadaeth, seilwaith glas-wyrdd, adeiladau sy'n perfformio'n dda, aneddiadau sydd wedi'u cysylltu'n dda a threfluniau a strydlyniau gweithredol yn hanfodol er mwyn gallu ymateb i'r hinsawdd a datgarboneiddio. Maent yn lleoedd unigryw, yn gyfoethog yn ddiwydiannol lle gall pobl ffynnu.

Yn benodol, rydyn ni'n pwysleisio bod angen cyflwyno'r safonau uchaf o ran dylunio a datblygu lle buddsoddir adnoddau cyhoeddus. Rhaid i brosiectau seilwaith ac adfywio, ysgolion a gofal iechyd sy'n derbyn arian cyhoeddus fod yn effeithlon ac o'r safon uchaf. Yn y prosiectau hyn, lluosogir costau dylunio gwael gan yr effaith negyddol ar gyflawniad, canlyniadau iechyd ac adferiad, llesiant a diogelwch. Mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i'r llesiant a'r ansawdd bywyd sydd ar gael i bob un o'n cymunedau yng Nghymru, ac ni ddylai'r pwrs cyhoeddus orfod talu costau dylunio gwael.

---

Mae caffael drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM), mentrau ar y cyd a dulliau eraill o Bartneriaethau Preifat Cyhoeddus (PPP) yn ddulliau pwysig o ddarparu cyfleusterau addysg ac iechyd gwell. Fodd bynnag, rhaid i ddarparu gwell dyluniad a gwell ansawdd a pherfformiad adeiladu fod yn amcan allweddol yn y modelau hyn, er mwyn i brosiectau cyhoeddus fod yn ddigon uchelgeisiol a chyfrannu'n llawn at wireddu nodau polisi a deddfwriaeth yng Nghymru. Rhaid iddynt fynd i'r afael ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, hanfodion yr hinsawdd, datgarboneiddio a pholisïau sy'n seiliedig ar leoedd. Rhaid i asedau a etifeddyd sy'n dychwelyd i'r fantolen gyhoeddus fod o safon sydd ddigon uchel i gyfleu gwerth cyhoeddus hirdymor a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol.

Mae gwaith y Comisiwn Dylunio wedi'i wreiddio i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy a hyrwyddo hynny. Mae hyrwyddo amgylchedd adeiledig cynhwysol sydd wedi'i ddylunio'n dda, sy'n effeithlon o ran adnoddau, ac sy'n hawdd i bawb ei ddefnyddio, ei brofi a'i fwynhau, yn ein galluogi i gyfrannu'n uniongyrchol at y nodau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol <https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethau-dyfodol-cymru>

**Cymru lewyrchus:** Rydyn ni'n cyfrannu at Gymru lewyrchus drwy hyrwyddo'r sgiliau a'r prosesau sy'n rhan annatod o ddylunio rhagorol o ran ansawdd ac arloesi mewn canlyniadau dylunio ar gyfer yr amgylchedd adeiledig cyfan. Mae Cymru sydd wedi'i dylunio'n dda yn Gymru greadigol ac unigryw gyda lleoedd cystadleuol ac ysbrydoledig. Rydyn ni'n hyrwyddo gwerth economaidd a chymdeithasol gyrfaoedd, diwydiannau ac entrepreneuriaeth yn y maes dylunio, meithrin talent ac amlygu llwybrau gyrfa sy'n cyfoethogi a chyfleoedd cyflogaeth o safon sy'n cael eu harwain gan bwrpas.

**Cymru gydnherth:** Rydyn ni'n cyfrannu at gydnherthedd, datgarboneiddio ac ymateb i argyfyngau'r hinsawdd a byd natur drwy rannu ein gwybodaeth a'n sgiliau mewn dylunio amgylcheddol gyfrifol effeithiol sy'n lleihau'r galw ar dir, deunyddiau ac adnoddau naturiol eraill. Rydyn ni'n hyrwyddo lleoedd sydd wedi'u dylunio a'u cysylltu'n dda ac sy'n lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol ac yn defnyddio tir yn effeithlon, gan ddiogelu a gwella bioamrywiaeth.

**Cymru iachach:** Rydyn ni'n cydnabod iechyd yn y ffordd gyfannol y mae Sefydliad Iechyd y Byd yn ei ddiffinio nid fel cysyniadau o weithgarwch neu ffitrwydd yn unig ond fel '*stad o les corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn ac nid absenoldeb clefyd neu wendid yn unig*'. Mae ein mewnbwn a'n cyngor arbenigol yn pwysleisio'n gryf ddull sy'n cael ei arwain gan bobl a lleoedd o newid, datblygu a rheoli amgylchedd adeiledig sy'n gallu darparu'r cymorth ffisegol, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sydd ei angen ar genedl er mwyn iddi allu ffynnu.

**Cymru sy'n fwy cyfartal:** Rydyn ni'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod newid, datblygu ac adfywio yn yr amgylchedd adeiledig yn gynhwysol o'r cychwyn cyntaf. Rhaid iddi fod yn rhwydd i bawb gael mynediad at fannau diogel a chyfforddus, cartrefi da, amwynderau a gwasanaethau yn hytrach na bod yn gyfyngedig i rai yn unig. Mae ein cyngor, ein canllawiau a'n mewnbwn yn pwysleisio bod angen dylunio a darparu lleoedd cynhwysol sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol ag anghenion pobl, yn enwedig y rheini a allai fod dan anfantais. Yn ein gweithrediadau o ddydd i ddydd ymysg ein tîm o staff, ein bwrdd, ein cynghorwyr a benodwyd a'n rhwydwaith, rydyn ni'n hyrwyddo tegwch a chynhwysiant, cydbwysedd proffesiynol a phersonol, hyblygrwydd a gweithio sy'n ystyriol o deuluoedd.



---

**Cymru o gymunedau cydlynus:** Rydyn ni'n cyfrannu at y nod hwn drwy hyrwyddo lleoedd sydd wedi'u dylunio'n dda ac sydd wedi'u lleoli'n dda ac sy'n ymateb i gyfoeth ac amrywiaeth ein cymunedau. Rydyn ni'n hyrwyddo pwysigrwydd cydnabod fod anghenion pobl wrth galon cynigion ar gyfer newid a datblygu, gyda phwyslais penodol ar brosesau ymgysylltu a gwneud penderfyniadau cynhwysol o'r dechrau i'r diwedd.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:** Rydyn ni'n pwysleisio pwysigrwydd asedau diwylliannol unigryw a chyfoethog Cymru, gan gynnwys tirwedd, iaith a threftadaeth unigryw, yn ein holl waith.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:** Yn ein gweithrediadau, rydyn ni'n manteisio ar bob cyfle i leihau ein heffaith ar asedau ac adnoddau amgylcheddol yn ogystal â lleihau ein heffaith o ran carbon drwy brosesau swyddfa, teithio a thrafnidiaeth. Mae ein cyngor arbenigol yn hyrwyddo ac yn pwysleisio arferion dylunio a chaffael sy'n amgylcheddol gyfrifol, gan gynnwys wrth gyrchu a defnyddio deunyddiau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i nodau penodol yn gweithredu fel fframwaith galluogi defnyddiol i'r Comisiwn Dylunio ei ddefnyddio wrth iddo geisio hyrwyddo a sicrhau Cymru sy'n lle gwell.



---

## **Edrych ymlaen at flaenoriaethau strategol ar gyfer 2024-25**

Yn y fframwaith a'r llythyr cylch gwaith blynyddol ar gyfer Comisiwn Dylunio Cymru sy'n nodi disgwyliadau yn ogystal ag amcanion craidd y cwmni, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod Comisiwn Dylunio Cymru yn gwneud cyfraniad pwysig drwy hyrwyddo dylunio da yn ein hamgylchedd adeiledig, gan helpu i greu lleoedd gwell lle mae pobl eisiau byw a gweithio.

Roedd ein fframwaith a'n cylch gwaith yn nodi'r ymrwymiad hwnnw i barhau i gefnogi gwaith Comisiwn Dylunio Cymru o ran helpu i gyflawni datblygu cynaliadwy, hyrwyddo creu lleoedd, creu cymunedau cynaliadwy a mynd i'r afael â newid hinsawdd.

### **Bydd ein targedau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025 yn parhau fel a ganlyn:**

- 22 o Ddiwrnodau Adolygu Dylunio gan gynnwys o leiaf 4 diwrnod yng Ngogledd Cymru (lle bo angen)
- 8 sesiwn datblygiad proffesiynol wedi'u cynllunio a'u cyflawni
- 350 o weithwyr proffesiynol ym maes amgylchedd adeiledig/Aelodau Awdurdodau Lleol yn mynychu digwyddiadau hyfforddiant/seminar

Bydd ein Cadeirydd newydd, Ewan Jones, yn ymwneud â pharhad y broses Penodiadau Cyhoeddus i benodi hyd at bedwar Comisiynydd newydd i Fwrdd y Comisiwn a fydd yn dechrau yn nhymor yr hydref. Byddwn yn mynd ati i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael ac yn cefnogi'r broses recriwtio, gan barhau â'n hymrwymiad i fentoreion ein Bwrdd ac i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a chysgodi i ddarpar ymgeiswyr.



---

Bydd ein cyllideb ar gyfer y cyfnod nesaf yn £430,000 i gynnwys £70,000 ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â Thrawsnewid Trefi. Mae ein hamcanion penodol ar gyfer 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 yn cynnwys:

- Hyrwyddo rhagoriaeth dylunio ar draws pob sector er budd lleoedd cynaliadwy, deniadol sydd wedi'u dylunio'n dda.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisiau Llywodraeth Cymru gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Nodiadau Cyngor Technegol a Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, i'r graddau y maent yn ymwneud â chreu lleoedd, dylunio a phensaerniaeth.
- Hyrwyddo'r safonau datblygu uchaf i gefnogi a hyrwyddo dylunio cynhwysol, datblygu cynaliadwy a gwrthsefyll yr hinsawdd, yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Ddeddf Cydraddoldeb.
- Parhau i wreiddio'r gwaith o greu lleoedd ar draws y sector datblygu drwy roi *Siarter Creu Lleoedd Cymru* ar waith. Disgwylir i ni barhau i chwarae rôl hwyluso, mewn partneriaeth â'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio, wrth lywio'r gwaith hwn, yn enwedig drwy ymgysylltu'n rheolaidd ag aelodau'r Siarter.
- Cyflawni ein rôl gynghori ychwanegol i gefnogi Cynlluniau Creu Lleoedd sy'n cael eu creu gan ddefnyddio cyllid grant o'r rhaglen Trawsnewid Trefi.
- Cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r broses o integreiddio polisi cynllunio trafndiaeth a defnydd tir yn strategol a hyrwyddo rôl dylunio a dylunwyr ynddo. Er nad oes cyllid penodol ar gael i ymgymryd â'r prosiect ehangach hwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon, efallai y bydd Comisiwn Dylunio Cymru yn rhan o'r gwaith paratoi a bydd trafodaethau'n cael eu cynnal dros y flwyddyn nesaf i ddatblygu dealltwriaeth o'r gofynion sy'n gysylltiedig â hyn.
- Cynnal digwyddiadau newydd yn Ne-ddwyrain a Gogledd Cymru, gan gynnwys cyfres newydd o bartneriaethau gyda Chlwb Busnes Caerdydd yn ogystal â chyfres newydd o weminarau.
- Byddwn yn cwblhau'r prosesau tendro cystadleuol yn ystod hydref 2024 ar gyfer gwasanaethau archwilio newydd ac ar gyfer ein gwefan newydd a fydd yn cael ei chwblhau ddechrau 2025, gydag adnoddau dylunio a chreu lleoedd newydd ar gael i randdeiliaid.
- Byddwn yn hyrwyddo proses Penodiadau Cyhoeddus newydd yn ystod hydref 2024 gyda'r bwriad o benodi hyd at bedwar Comisiynydd newydd, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at eu croesawu ym mis Ebrill 2025.

---

Byddwn yn parhau i hyrwyddo rhagoriaeth dylunio yng nghyd-destun 'creu lleoedd strategol' lle mae dylanwad ar leoliad a dewis safle yn cael ei ystyried ar yr adeg fwyaf priodol i fanteisio i'r eithaf ar drafnidiaeth gynaliadwy yn ogystal â darparu ffrwd o ddatblygiadau tai i ddiwallu angen a nodwyd yn strategol. Mae datblygiadau un defnydd mewn lleoliad gwael yn broblem ddylunio sylfaenol sy'n arwain at ragor o heriau o ran trafnidiaeth, mynediad at wasanaethau, effeithlonrwydd adnoddau, gwrthsefyll yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy.

Cynhaliwyd trafodaethau cynnar ar hyn rhwng ein tîm a'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio. Byddwn yn defnyddio'r flwyddyn nesaf i barhau i ddatblygu'r gwasanaeth a ddarperir gennym yn y maes hwn, gan flaenlwytho ein cynnig i greu lleoedd yn strategol yn ystod camau cynnar y broses o baratoi a dewis safleoedd strategol cynlluniau datblygu lleol. Bydd cefnogaeth gan y tîm o noddwyr a phartneriaid awdurdodau lleol yn hanfodol ar gyfer y ffrwd waith hon.

Yn olaf, bydd gennym rôl allweddol i'w chwarae o ran arwain gwelliannau i ansawdd ceisiadau cynllunio ar gyfer cynlluniau tai fforddiadwy, gan gynnwys safleoedd enghreifftiol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a phartneriaid awdurdodau tai lleol ac yn cynnwys cynrychiolaeth o Gyfarwyddiaethau Tai a Chynllunio Llywodraeth Cymru.

Fel sefydliad, byddwn yn diogelu ac yn gwella ein diwylliant o ansawdd a chreadigrwydd ar yr un pryd â sicrhau gweithrediadau a gweinyddu, arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol.



Digwyddiad Dathlu 20 mlynedd, Prif Weithredwr Comisiwn Dylunio Cymru Carole-Anne Davies



Y Gweinidog, Julie James AS

# Atodiadau

## **Y Datganiad Llywodraethu a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr**

Cyfeirir at Gadeirydd a Bwrdd Cyfarwyddwyr Comisiwn Dylunio Cymru fel Comisiynwyr. Yn gyfreithiol, nhw yw Cyfarwyddwyr Comisiwn Dylunio Cymru Deisgn Commission for Wales, enw masnachu'r cwmni cyfyngedig drwy warant, heb gyfranddaliadau cyfalaf, DCFW CYFYNGEDIG Rhif Cwmni: 04391072, sydd wedi'i ymgorffori yng Nghymru a Lloegr fel is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gweinidogion Cymru bellach). Mae ei Swyddfa Gofrestredig ar y 4ydd Llawr, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FL.

Nid yw'r Comisiynwyr yn derbyn cyflog a Gweinidogion Cymru sy'n eu penodi drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus, gan adlewyrchu Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus Pwyllgor Nolan.

Mae Prif Weithredwr y Comisiwn yn adrodd i'r Cadeirydd a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn ei gyfarfodydd chwarterol a'r cyfarfod cyffredinol blynyddol, ac yn chwarterol i Lywodraeth Cymru, drwy'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio.

Arweinir y Cadeirydd a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr gan Lawlyfr Comisiwn Dylunio Cymru i Gyfarwyddwyr. Caiff ei lywio gan Egwyddorion Nolan, y Ddeddf Cwmniau a gan ganllawiau perthnasol a chyfredol eraill. Mae Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau dan y Ddeddf Cwmniau, gan gynnwys cytuno ar y cyfeiriad strategol, arfer eu dyletswydd ariannol drwy weithredu bob amser er budd llwyddiant y cwmni, gan wneud hynny gyda gofal, diwydrwydd a sgiliau.

Mae'r Is-bwyllgor Cyllid a Phwrpas Cyffredinol yn cefnogi'r Bwrdd Cyfarwyddwyr gyda chylch gorchwyl llawn sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Mae Rheolwr Adnoddau a Chyllid y Comisiwn yn monitro ac yn diweddarau materion cydymffurfio'n rheolaidd ac yn adrodd i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr drwy bapurau'r tîm gweithredol, sy'n cael eu rhannu cyn cyfarfodydd. Caiff holl bolisiau Comisiwn Dylunio Cymru, gan gynnwys y polisi Rheoli Risgiau, eu diweddarau'n rheolaidd a'u cynnwys yn y Llawlyfr i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Cynigir a darperir hyfforddiant cynefino a hyfforddiant pellach i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r staff fel sy'n ofynnol, ar ôl nodi bod hynny'n angenrheidiol ac yn werthfawr.

Nod y Cadeirydd a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr wrth arfer eu pwerau bob dydd i'r Prif Weithredwr, yw cyflawni cydbwysedd hollbwysig rhwng cyfeiriad strategol a rheolaeth weithredol. Wrth iddynt ddirprwyo eu pwerau a'u hawdurdod i staff gweithredol, mae'r Cadeirydd a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn ymwybodol bod angen bod yn ofalus nad ydyn nhw'n dirprwyo eu cyfrifoldeb. Maent yn arfer eu pwerau'n annibynnol ac yn derbyn cyfrifoldeb ar y cyd ar yr un pryd. Maent yn cael eu trafod a'u rhestru'n gywir ac yn briodol ar wefan Comisiwn Dylunio Cymru ac yng ngwybodaeth arall y cwmni.

## Ein Bwrdd Cyfarwyddwyr

Gyda chylch gwaith ledled yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru, rydyn ni'n dîm annibynnol amlddisgyblaethol o arbenigwyr. Nid ydym yn sefydliad aelodaeth, ac nid ydym yn cynrychioli buddion unrhyw broffesiwn penodol. Ar hyn o bryd, gan gynnwys ein Cadeirydd Gayna Jones (hyd at 30 Ebrill 2024), mae ein Bwrdd yn cynnwys wyth Comisiynydd i gyd.



### **Ewan Jones, Cadeirydd 1 Mehefin 2024 – presennol**

Cafodd Ewan ei benodi'n Gadeirydd Comisiwn Dylunio Cymru ym mis Ebrill 2024 gan ymgymryd â'r rôl o ddifrif ym mis Mehefin y flwyddyn honno. Cafodd ei eni yng Nghasnewydd a'i fagu ym Mhorthcawl. Mae'n Bartner yn Grimshaw, practis pensaernïol, a sefydlwyd yn y DU, gydag enw da yn rhyngwladol am ragoriaeth dylunio. Mae ganddo dros 30 mlynedd o brofiad yn gweithio ar brosiectau seilwaith, masnachol ac addysg yn y DU, Ewrop ac Awstralia. Mae gwaith dylunio Ewan yn hyrwyddo'r broses o integreiddio pensaernïaeth, peirianeg ac adeiladu i greu lleoedd unigryw sy'n cyd-fynd â'u cyd-destun unigol. Mae cyflawniadau Ewan yn cynnwys Adeilad St Botolph a phencadlys Lloyds Bank yn Ninas Llundain, Gorsaf Bijlmer ArenA yn Amsterdam a gyrhaeddodd restr fer Gwobr Stirling a Phont Droed Dinas Casnewydd. Mae hefyd wedi gweithio'n helaeth ar ddyluniadau Grimshaw ar gyfer Gorsaf Euston HS2 ac ymhlith y prosiectau sydd ar y gweill ar hyn o bryd mae adeiladu Traphont Colne Valley ar gyfer HS2 a gwaith dylunio manwl ar gyfer Cyfnewidfa Caerffili.



### **Gayna Jones (Cadeirydd 2016-2024)**

Graddiodd Gayna ym Mhrifysgol Aberystwyth, a chafodd brofiad yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol yn ystod ei gyrfa. Ar ôl dechrau yn adran adnoddau dynol un o gwmnïau Unilever, aeth yn ei blaen i weithio i Cymorth i Fenywod, cyn dilyn gyrfa ym maes tai. Ar ôl degawd fel Prif Weithredwr Cymdeithas Dai, sefydlodd ei hymgyngoriaeth dai ei hun. Bu Gayna hefyd yn gynghorydd ar awdurdod lleol. Hi oedd yr aelod annibynnol cyntaf i gael ei phenodi i Fwrdd Rheoleiddiol Cymru, a chafodd ei phenodi'n Gomisiynydd ar Fwrdd Comisiwn Dylunio Cymru yn 2010, gan ddod yn Gadeirydd mewn penodiad newydd a ddechreuodd yn 2016. Daeth ei thymor i ben ar 30 Ebrill 2024. Mae Gayna'n gymrawd y Sefydliad Tai Siartredig (FCIH) ac yn Gymrawd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau (FRSA).



### **Mike Biddulph**

Dylunydd trefol yw Mike Biddulph sy'n gweithio i Gyngor Caerdydd. Graddiodd o'r rhaglen dylunio trefol ym Mhrifysgol Brookes Rhydychen. Dechreuodd Mike ei yrfa gyda Chyngor Dinas Rhydychen ac yna bu'n ddarlithydd dylunio trefol ym Mhrifysgol Lerpwl ac yna ym Mhrifysgol Caerdydd, lle sefydlodd yr MA Dylunio Trefol gan ei chyfarwyddo ar y dechrau. Mae ganddo ddiddordeb brwd o hyd yn y modd y mae systemau cynllunio'r DU yn ymdrin â dylunio ac mae wedi cyhoeddi'n helaeth ar theori ac egwyddorion dylunio trefol, cynllunio a dylunio cymdogaethau, uwch gynllunio a chodio dylunio, gwahanol ddulliau o adfywio ac adnewyddu trefol, yn ogystal â dylunio strydoedd a thir cyhoeddus. Roedd Mike ar flaen y gad yn yr ymdrechion i gyflwyno parthau cartrefi yn y DU. Mae wedi bod yn eiriolwr cryf dros Gomisiwn Dylunio Cymru ers blynyddoedd lawer ar ôl gwneud cyfraniadau at y gwasanaeth Adolygu Dylunio, ac mae wedi cwblhau ymchwil ac wedi arwain rhaglenni hyfforddi ledled Cymru hefyd.



### **Cora Kwiatkowski**

Pensaer yw Cora sydd â dros 20 mlynedd o brofiad rhyngwladol ac mae'n Gyfarwyddwr Adrannol ac yn Arweinydd Sector ar gyfer Prifysgolion Stride Treglown, yn Hyrwyddwr Cynaliadwyedd ac yn aelod o grŵp llywio mewnol y Fenter Ymchwil ac Arloesi ac Ymgynghori. Gyda'i chefnidir dylunio strategol cryf, mae Cora wedi bod yn gyfrifol am brosiectau clodwiw uchel eu gwerth, gan gynnwys addysg uwch, llety myfyrwyr a chynlluniau gweithle fel arweinydd dylunio a chynghorydd cleientiaid. Mae hi hefyd wedi arwain timau amlddisgyblaethol. Ymhlith ei phrosiectau amlddisgyblaethol blaenorol yn y DU, yr Almaen a Sweden hefyd mae uwch gynlluniau, codau dylunio, prosiectau mawr defnydd cymysg, preswyl a thrafnidiaeth. Mae Cora'n canolbwyntio ar brofiad defnyddwyr. Mae'n angerddol dros ymgysylltu'n gydweithredol â rhanddeiliaid ac mae wedi cyfrannu at ymchwil arloesol ar y cyfryngau cymdeithasol ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr a'r cyhoeddiadau 'Inhabitant'. Mae Cora wedi mynd ati i hyrwyddo dylunio da fel arweinydd meddwl drwy gadeirio'r Panel Adolygu Dylunio Comisiwn Dylunio Cymru a Design West ers sawl blwyddyn. Mae hi hefyd yn Gynghorydd Cleientiaid gyda Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), yn Arbenigwr y Cyngor Dylunio, yn Ymddiriedolwr ar Fwrdd Canolfan Pensaerniaeth Bryste ac yn aelod o grŵp ymchwil y Fforwm Ansawdd Dylunio Addysg Uwch. Cyrhaeddodd Cora rownd derfynol yn y categori 'Pensaer Benywaidd Gorau' yn y Gwobrau Ewropeaidd Menywod ym maes Adeiladu a Pheirianeg 2019.





### Jon James

Mae Jon yn Bensaer cofrestredig, yn ddylunydd Passive Haus ardystiedig ac mae wedi'i restru ar gofrestr Cadwraeth RIBA. Ar ôl graddio o Brifysgol Plymouth, datblygodd Jon bortffolio pensaernïol a oedd yn canolbwyntio ar ddylunio, ar ôl gweithio ar neu arwain timau sy'n gweithio ar amryw o brosiectau gwahanol sy'n werth hyd at £180 miliwn. Mae Jon wedi gweithio i nifer o bractisau clodwiw o amgylch De-orllewin Lloegr a De Cymru. Mae'n Bensaer profiadol sy'n arbenigo mewn cadwraeth, ac mae wedi dylunio a chwblhau adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth ac wedi addasu adeiladau rhestredig gradd II ar gyfer y sector preswyl a'r sector addysg. Cafodd addysg ffurfiol mewn pensaernïaeth cadwraeth a chafodd brofiad o weithio gyda swyddogion cadwraeth ac mae wedi dangos ei fod yn gallu gwneud gwaith da a bod ganddo wybodaeth gefndir am agweddau allweddol ar ymarfer, egwyddorion ac athroniaeth cadwraeth. Mae Jon yn frwd dros ddylunio cynaliadwy. Sefydlodd Jon James Studio Architecture ar ôl cael ei sbarduno gan yr angen i weithredu ar yr argyfyngau hinsawdd, a chynaliadwyedd yw asgwrn cefn y stiwdio. Mae'n credu'n gryf bod angen ystyried dylunio cynaliadwy ar ddechrau unrhyw brosiect gan fod penderfyniadau a wneir yn cael effaith ar y broses adeiladu a hefyd yn dylanwadu ar oes gyfan yr adeilad. Mae Jon yn gweithio gydag Ysgol Pensaernïaeth Cymru fel ymgynghorydd ac arholwr ar gyfer graddedigion blwyddyn olaf. Mae wedi cydweithio â'r Sefydliad Ymchwil Carbon Isel gan gynnwys gweithio ar y papur ymchwil addysg Ewropeaidd gan annerch eu cynhadledd flynyddol. Mae Jon hefyd wedi annerch nifer o gynadleddau cenedlaethol eraill gan gynnwys cynhadledd genedlaethol BIM a chynadleddau Ystadau Addysg.



### Joanna Rees

Mae Jo Rees yn Bartner gyda'r cwmni cyfreithiol Blake Morgan yng Nghaerdydd. Mae hi'n arbenigo mewn cynlluniau adeiladu a datblygu ac yn arwain tîm Seilwaith trawsddisgyblaethol y cwmni. Mae ganddi gryn brofiad o waith datblygu cyhoeddus a phreifat ar raddfa fawr, cynlluniau adfywio a phrosiectau seilwaith. Graddiodd Jo, sy'n wreiddiol o Borthcawl, o Brifysgol Bryste a gweithiodd yn y Ddinas cyn dychwelyd i Gymru. Mae ei chleientiaid yn ei chydnabod fel "cynghorydd dibynadwy" nad oes arni ofn herio materion cymhleth a dod o hyd i atebion pragmatig derbyniol o fewn gofynion llywodraethu. Mae'n deall y gofynion pendant ynghylch atebolrwydd, tryloywder a gwerth am arian sy'n ofynnol ar gyfer gwariant cyhoeddus. Hyd yma yn ei gyrfa, bu Jo'n gweithio ar nifer o systemau trafnidiaeth allweddol sy'n dyst i bŵer adfywiol seilwaith – fel Croydon Tramlink, Docklands Light Railway, Jubilee Line, Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd Trafnidiaeth Cymru ynghyd â chynlluniau ffyrdd mawr. Mae Jo wedi cymryd rhan mewn nifer o gynlluniau adfywio allweddol yn Ne Cymru, gan gynnwys datblygu ardaloedd canol dinas Abertawe a Phorth Teigr a Sgwâr Loudoun yng Nghaerdydd. Mae ganddi hefyd brofiad gwerthfawr o weithio ar gynlluniau ynni adnewyddadwy fel ynni'r gwynt, ynni solar, ynni'r llanw a threulio anaerobig. Mae Jo hefyd yn un o ymddiriedolwyr Canolfan Mileniwm Cymru, yn aelod o Gyngor Busnes Caerdydd ac mae'n siarad Cymraeg.



### **Elinor Gray-Williams (Dyddiad cwblhau'r gwasanaeth 31 Mawrth 2024)**

Mae Elinor Gray-Williams yn bensaer cadwraeth profiadol gydag ymrwymiad cryf i Gymru a'i threftadaeth. Ar ôl cwblhau Ysgoloriaeth Lethaby SPAB yn 2007, bu'n gweithio yn Donald Insall Associates am 13 o flynyddoedd fel Cyfarwyddwr Cyswllt, cyn sefydlu ei phractis ei hun, PegwArchitects, yn 2019, yng Ngogledd Cymru. Mae'n mwynhau'r heriau creadigol o atgyweirio, aildefnyddio ac ôl-osod adeiladwaith presennol, ac mae'n gweithio'n greadigol gyda thirweddau a safleoedd sensitif i ddiogelu dehongliad dilys o leoedd a straeon presennol, ac i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol yn ei gwaith. Mae Elinor yn ddarlithydd gwadd yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen lle mae'n annog myfyrwyr Pensaerniaeth Gynaliadwy i ymchwilio i'r economi sylfaenol yma yng Nghymru ac i adolygu amgylchedd adeiledig a naturiol unigryw, a hunaniaeth ddiwylliannol wydn Cymru.



### **Ian Carter (Dyddiad cwblhau'r gwasanaeth 31 Mawrth 2024)**

Cyfarwyddwr Datblygu yw Ian sydd wedi dal amrywiaeth o swyddi uwch mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Gyda phrofiad o brosiectau tai (preifat a chymdeithasol), gwestai a lletygarwch, masnachol a diwydiannol, mae'n cynnig ystod eang o arbenigedd i'r Comisiwn Dylunio. Mae Ian yn gynllunydd tref siartredig ac wedi cymhwyso fel dylunydd trefol, gan ennill gradd Anrhydedd mewn Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol a Gradd Meistr mewn Dylunio Trefol ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ganddo brofiad helaeth o'r Comisiwn Dylunio a'i Wasanaeth Adolygu Dylunio ac yn eiriolwr angerddol ar ei ran.



### **Fiona Nixon (Dyddiad cwblhau'r gwasanaeth 31 Mawrth 2024)**

Mae Fiona yn Bensaer ac yn gyn-Bennaeth Prosiectau Ystadau ym Mhrifysgol Abertawe. Ar ôl graddio o Ysgol Pensaerniaeth Cymru, treuliodd sawl blwyddyn mewn practis preifat yn Glasgow yn gweithio'n bennaf ar gyfleusterau ymchwil meddygol ar gyfer y Sector Addysg Uwch. Ymunodd â Phrifysgol Abertawe yn 1994 ac yno bu'n rheoli prosiectau adeiladu a rhaglenni datblygu cymhleth ar draws ystad y Brifysgol. Mae Fiona'n eiriolwr brwd dros gydweithio ac mae ganddi brofiad helaeth o gaffael a rheoli fframweithiau ymgynghorwyr a chontractwyr. Mae hi hefyd wedi bod yn ymwneud yn helaeth â hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn Addysg Uwch ac yn y Diwydiant Adeiladu.

## **Cydraddoldeb, y Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae'r Comisiwn yn gweithredu'n unol â Chanllawiau a Deddfwriaeth Cydraddoldeb ac mae ganddo drefniadau ar waith ar gyfer tegwch, hyblygrwydd a pholisiau sy'n ystyriol o deuluoedd. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei waith a'i ddiwylliant ei hun, ac wrth chwarae ei ran i helpu i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cyflawni a chydabod anghydraddoldebau ymhlith y proffesiynau ehangach ym maes dylunio a'r amgylchedd adeiledig.

Fe wnaeth Is-adran Dyfodol Tecach Llywodraeth Cymru astudiaeth achos ar broses recriwtio Comisiwn Dylunio Cymru ar gyfer Comisiynwyr newydd, drwy broses Penodiadau Cyhoeddus 2016, fel model arfer da. Mae ein prosesau recriwtio a'n dull o wneud Penodiadau Cyhoeddus ar lefel bwrdd yn caniatáu amser i ymgysgu, cysgodi, a chael hyfforddiant. Rydym yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd o wella'r dull hwn. Mae'r astudiaeth achos ar gael ar ein gwefan: <https://dcfw.org/board-diversity-case-study-report/>

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau mwy o gynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Wrth i ni geisio adlewyrchu realiti mewn byd amrywiol, rydym yn parhau i ddatblygu pob agwedd ar lywodraethu a gweithrediadau. Ein nod yw hyrwyddo cyfleoedd, gan gynnig cyfleoedd priodol ar bob lefel i gynefino, cysgodi, hyfforddi a mentora.

Wrth i ni hyrwyddo dylunio da ar draws sectorau, rydym yn parhau i geisio dod o hyd i adeiladau a lleoedd sydd wedi'u dylunio'n dda sy'n gynhwysol, yn hygyrch, ac yn ddiogel i bawb eu defnyddio. Cynhwysiant yw un o'r adnoddau mwyaf pwerus sydd gennym i helpu i greu lleoedd da a manteisio ar y gronfa dalent ehangaf sydd ar gael i ni. Mae amgylchedd adeiledig sydd wedi'i ddylunio'n dda yn cynnwys pawb ac yn helpu i fynd i'r afael â'u hanghenion.

Mae Cymru yn genedl ddwyieithog ac rydyn ni'n awyddus i fanteisio ar bob cyfle i brif ffrydio'r Gymraeg. Fel cwmni bach sy'n gweithio ar raddfa is na throthwyon Safonau'r Gymraeg, a heb lawer o adnoddau, mae Comisiwn Dylunio serch hynny'n dal i fod wedi ymrwymo i drin y ddwy iaith yn gyfartal a defnyddio'r Gymraeg yn ein gweithgarwch ac wrth gyhoeddi a rhannu ein deunyddiau craidd, lle bo adnoddau ar gael. Nod y Comisiwn yw trin y Gymraeg fel iaith sy'n gyfartal â'r Saesneg, ac mae darpariaethau ar gael i gynnal hyfforddiant a digwyddiadau eraill gyda chyfleusterau i ddefnyddio'r Gymraeg ac mewn lleoliadau dwyieithog. Caiff ei ymrwymiad i brif ffrydio'r Gymraeg ei lywio gan ganllawiau swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Rydyn ni'n parhau i wella ein dull o ran gweithgareddau bob dydd a'n llwyfannau cyfathrebu lle bynnag y bo modd.

## **Nodyn am adnoddau ariannol a dynol, cymorth ymarferol**

Caiff yr holl gronfeydd refeniw eu dyrannu'n uniongyrchol i orbenion a gweithgareddau'r Comisiwn. Ar ôl costau sefydlog, gan gynnwys cyflogau, ymrwymadau cronfeydd pensiwn, gweinyddiaeth ac eiddo, mae'r Comisiwn yn dyrannu adnoddau ariannol yn uniongyrchol i'w weithgarwch ledled Cymru. O bryd i'w gilydd, bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn am gymorth arbenigol gan y Comisiwn ac mae'n bosibl y bydd yn amlinellu prosiectau cyfalaf ychwanegol a ariennir ar wahân. Amlinellir prosiectau o'r fath mewn dogfennau cwmpas manwl a bydd y Gyfarwyddiaeth Gynllunio yn cytuno arnynt ymlaen llaw a byddant yn cael eu gweinyddu'n briodol i hwyluso cyflawni prosiectau.

Mae'r wybodaeth ariannol a gyflwynir yn y cynllun hwn yn cynrychioli cyfanswm yr incwm, gan gynnwys cronfeydd prosiect a neilltuwyd, ac mae'n nodi sefyllfa'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024.

Mae gweithwyr proffesiynol sector preifat o bractisau preifat yn gwneud cyfraniad ymarferol ychwanegol sylweddol, a nodwyd hynny'n gynharach yn yr adroddiad hwn. Mae'r ymrwymiad sector preifat hwn yn cefnogi model busnes unigryw Comisiwn Dylunio Cymru ac yn cyfrannu'n sylweddol at warantu ein gwasanaethau craidd, yn benodol y Gwasanaeth Adolygu Dylunio a chymorth a hyfforddiant awdurdodau lleol. Fel sefydliad sy'n derbyn arian cyhoeddus, rydym yn gwerthfawrogi partneriaethau o'r fath a'u gallu i sicrhau bod buddsoddiadau cyhoeddus yn sicrhau'r gwerth gorau posibl.

Mae'r gwirfoddolwyr arbenigol hyn o'r sector preifat, sy'n gwasanaethu fel Panelwyr Adolygu Dylunio, yn cynnig capasiti ychwanegol i gefnogi'r tîm bach o staff craidd. Gweithwyr proffesiynol yw aelodau'r Panel Adolygu Dylunio arbenigol, aml-ddisgyblaethol hwn, sy'n brofiadol ym mhob math o brosiectau datblygu ac ar sawl graddfa. Mae eu sgiliau a'u profiad yn cynnwys eiddo masnachol, adfywio, pensaerniaeth, cynaliadwyedd, dylunio trefol a thirwedd, ymgysylltu â'r gymuned, seilwaith ynni gan gynnwys gwynt ar y môr ac ar y tir, yn ogystal â pheirianneg, cynllunio a thrafnidiaeth.

Mae arbenigwyr o'r diwydiant sy'n gweithio fel panelwyr yn gwneud hynny'n ddi-dâl ac yn cael eu penodi drwy gyfweiliad cystadleuol, am gyfnod o ddwy flynedd, yn amodol ar adolygiad perfformiad a chael eu hailbenodi. Mae'r panelwyr yn arbennig o hanfodol gan eu bod yn ategu'r gwaith o ddarparu ein Gwasanaeth Adolygu Dylunio cenedlaethol ac yn rhoi o'u hamser a'u harbenigedd bob mis am o leiaf ddeuddydd - tridiau fel rheol. Mae panelwyr hefyd yn helpu'r Comisiwn yn ei waith eirioli, mewn digwyddiadau a seminarau, ac wrth roi sylwadau arbenigol am ddylunio ac wrth gynghori cleientiaid.

---

## Atodiad 3

Nid yw panelwyr yn derbyn tâl am eu cyfraniadau at wasanaethau Adolygu Dylunio, a dim ond treuliau sy'n codi'n uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau'r Comisiwn a ad-delir. Maent yn dod ag arbenigedd gwerthfawr iawn tra bod eu practisau preifat, eu partneriaid busnes a'u cyflogwyr yn neilltuo amser iddyn nhw weithio i'r Comisiwn. Mae hyn yn golygu bod ein Gwasanaeth Adolygu Dylunio strategol a chenedlaethol ar gael am ddim i bob defnyddiwr, ei fod o safon uchel iawn ac yn unigryw i Gymru ac yn y DU.

Cyfrifir gwerth ymrwymiad rheolaidd a chyson aelodau'r Panel Adolygu Dylunio, sy'n dod o'r sector preifat yn bennaf, a gellid ei ddeall yn Ffigur a) isod. Mae'r gwerth yn seiliedig ar y cyfraddau a argymhellir a gyhoeddwyd gan RIBA ar gyfer rolau uwch bartneriaid mewn practisau preifat, fel y rheini sy'n aelodau o'r panel, a chyfraddau tystion arbenigol sy'n berthnasol i banelwyr sy'n cyfrannu at yr adolygiadau ar drafnidiaeth ac ynni yn ogystal â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) a hefyd Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPS) a bennir gan yr Arolygiaeth Gynllunio <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/> Dangosir gwerth y cymorth hwn yn flynyddol yn ein hadroddiadau ariannol diwedd blwyddyn ac mae'n ffigur sylweddol, sy'n dangos ymrwymiad y sector preifat i roi cymorth ymarferol ar gyfer model a gwasanaethau gweithredol Comisiwn Dylunio Cymru.

Mae ein Gwasanaeth Adolygu Dylunio ar gael ledled Cymru a'r nod yw bod yn beripatetig ac yn hyblyg. Dyma'r unig wasanaeth o'i fath yn y DU sydd hefyd ar agor ar gyfer presenoldeb at ddibenion datblygiad proffesiynol a hyfforddiant. Mae gan y gwasanaeth Adolygu Dylunio enw da o ran ansawdd, gonestrwydd, arbenigedd a chadernid.

Mae ein hasesiadau risg yn blaenoriaethu'r enw da hwnnw a'i ddibyniaeth ar safonau uchel a'r gallu i ddenu aelodau medrus i'r Bwrdd, staff a phanelwyr profiadol ac ymroddedig. Mae'r Comisiwn bob amser yn cynnal ymrwymiad gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr rhagorol, gan ddenu rhestr o ymgeiswyr cryf i benodi aelodau newydd o'u plith mewn blynyddoedd i ddod. Rydyn ni'n parhau i weithredu galwad agored ar gyfer datgan diddordeb er mwyn sicrhau dilyniant.

Gyda'i gilydd, Bwrdd Cyfarwyddwyr, tîm staff, panelwyr Adolygu Dylunio Comisiwn Dylunio Cymru, yw'r rhwydwaith amlddisgyblaethol annibynnol mwyaf o arbenigwyr dylunio proffesiynol yng Nghymru ac mae ganddynt gyrhaeddiad eang ledled y DU. Maent yn cynrychioli rhwydwaith gweithredol a chysylltiedig, annibynnol, cenedlaethol o ddylunwyr ac arloeswyr talentog, sy'n rhannu'r nod cyffredin o hyrwyddo dylunio da er mwyn helpu i wneud Cymru'n lle gwell.

## Atodiad 3

### Cymorth ymarferol yn y sector preifat ar gyfer 2023/24

Dyddiad 2023/24	Cyfarfod	Nifer o'r Comisiwn	Panelwyr	Cyfanswm oriau	Cost cynrychiolwyr
Ebrill 17	Digwyddiad Leti	1	BE	8	£1,200.00
Ebrill 20	Adolygu Dylunio	5	CJ/AP/RW/BE/JA	27.5	£3,450.00
Ebrill 24	Digwyddiad SUDS	1	SR	8	£1,200.00
Ebrill 25	Cyfarfod cynllun lle	2	SR/SS	8	£1,200.00
Ebrill 26	Cyfarfod cynllun lle	2	SR/SP	8	£1,200.00
Mai 4	Cyfarfod cynllun lle	2	CS/SS	8	£1,200.00
Mai 18	Adolygu Dylunio	3	JB/AW/AA	7.5	£975.00
Mai 31	Cyfarfod cynllun lle	1	SP	4	£600.00
Mehefin 14	Cyfarfod cynllun lle	1	SP	4	£600.00
Mehefin 21	Cyfarfod cynllun lle	1	SS	4	£600.00
Mehefin 28	Cyfarfod cynllun lle	2	CJ/AS	8	£1,200.00
Gorffennaf 13	Adolygu Dylunio	6	EJ/WM/SP/JA/TA/AA	45	£5,450.00
Gorffennaf 26	Adolygu Dylunio	4	AL/WM/SP/GH	20	£2,800.00
Awst 17	Adolygu Dylunio	3	AL/EW/SP	14.25	£2,137.50
Medi 14	Adolygu Dylunio	3	SR/EJ/TA	13.5	£2,025.00
Medi 18	Adolygu Dylunio	2	KD/CJ	8	£1,050.00
Medi 28	Adolygu Dylunio	5	JB/SP/TA/SS/MH	41	£6,187.00
Hydref 4	Cyfarfod safle strategol	3	KD/SS/CS	18	£2,250.00
Hydref 12	Adolygu Dylunio	5	JVS/CJ/BS/LS/KD	37.5	£5,625.00
Hydref 18	Cyfarfod creu lleoedd	3	GH/WM/MH	6	£2,700.00
Tachwedd 9	Adolygu Dylunio	5	CS/AW/KD/CW/RW	30	£3,750.00
Tachwedd 21	Gweithdy	9	WM/AS/SP/SS/SS/MH/TA/GH	9	£1,350.00
Tachwedd 29	Cymorth i gleientiaid TrC	3	SS/MH/CS	12	£1,800.00
Rhagfyr 7	Adolygu Dylunio	5	WM/SS/SC/IB/SP	30	£4,050.00
Ionawr 12	Cyfarfod creu lleoedd	2	AS/CS	4	£600.00
Ionawr 24	Adolygu Dylunio	5	AL/TA/AS/CJ/RW	25	£3,750.00
Ionawr 29	Cymorth i gleientiaid TrC	1	SS	4	£600.00
Chwefror 5/6	Metro Gogledd Cymru TrC	2	EJ/SP	20	£3,000.00
Chwefror 9	Cyfarfod safle strategol	2	SS/KD	7	£1,050.00
Chwefror 20	Cyfarfod creu lleoedd	2	AS/WM	2	£600.00
Chwefror 21	Adolygu Dylunio	7	AL/AW/SS/MT/BE/SP/KD	56	£7,400.00
Chwefror 22	Cyfarfod safle strategol	2	SS/KD	10	£1,500.00
Chwefror 23	Cyfarfod creu lleoedd	2	WM/MT	4	£600.00
Chwefror 29	Adolygu Dylunio	3	EJ/SR/TA	12	£1,800.00
Mawrth 13	Adolygu Dylunio	5	SR/AA/CJ/MH/SS	35	£5,250.00
Mawrth 18	Cyfarfod TrC	2	MK/SS	2	£300.00
Mawrth 25	Cyfarfod TrC	2	MK/SS	6	£900.00
			<b>23% o drosiant: £81,949.50</b>		



[www.dcfw.org](http://www.dcfw.org)